Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991

2017

© Hawlfraint y Goron 2017
WG32282 ISBN digidol: 978-1-4734-9867

**DATGANIAD O AMCANION A BLAENORIAETHAU STRATEGOL AR GYFER OFWAT**

**1. Cyflwyniad**

i. Mae datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddi. Ein nod hirdymor yw datblygu Cymru fel gwlad lewyrchus a diogel, iach a gweithgar, sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig ac wedi'i chysylltu. Rydym yn anelu at wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau ledled Cymru. Mae ein strategaeth Dŵr i Gymru yn pwysleisio'r rhan allweddol y mae dŵr yn ei chwarae i gyflawni'r diben hwn ac yn nodi'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan y cwmnïau dŵr. Mae gan Ofwat, fel y rheolydd economaidd annibynnol, ran ganolog i'w chwarae yng ngallu'r sector i gyflawni'r uchelgais hon. Gan gydweithio'n agos â rheoleiddwyr safonol (yn bennaf yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a Chyfoeth Naturiol Cymru) mae Ofwat yn cyflawni nifer o swyddogaethau statudol pwysig[1].

ii. Mae'r datganiad hwn yn nodi ein hamcanion a'n disgwyliadau ar gyfer Ofwat, a'r blaenoriaethau strategol yr ydym yn disgwyl i Ofwat eu dilyn yn ystod ei waith yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru[2].

**2. Amcanion ar gyfer Ofwat**

i. Rydym yn disgwyl i Ofwat ddatblygu'r fframwaith rheoleiddio fel y mae'n berthnasol i Gymru ar sail tystiolaeth gadarn berthnasol yng nghyd-destun Cymru. Mae'n rhaid iddo ddangos sut y mae wedi ystyried yr amgylchiadau sy'n benodol i Gymru wrth ddatblygu cynigion newydd sy'n berthnasol i Gymru ac ymgynghori arnynt. Pan fo'n briodol, dylai fabwysiadu dull gwahanol ar gyfer ymgymerwyr a reoleiddir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

ii. Rydym yn disgwyl i Ofwat herio cwmnïau i gyflawni ar gyfer cwsmeriaid yn seiliedig ar gymariaethau rhwng cwmnïau yng Nghymru ac yn Lloegr, ac ar draws sectorau pan fo'n briodol. Dylai ganiatáu ar gyfer y gwahaniaethau yn yr amgylcheddau gweithredol a chyfreithiol sydd gan gwmnïau yng Nghymru, ac ystyried amrywiaethau yn y blaenoriaethau sydd gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

iii. Rydym yn disgwyl i Ofwat roi sylw dyledus i wahaniaethau yn y presennol ac yn y dyfodol ym mholisïau a chyfreithiau'r DU a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys pan fo rhwymedigaethau newydd ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru.

[1] Mae swyddogaethau statudol Ofwat I'w canfod yn bennaf yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd, "yr WIA"), ac mae'r dyletswyddau statudol a nodir yn adran 2 o'r WIA yn berthnasol i Ofwat o ran cyflawni mwyafrif y swyddogaethau.

[2] Cyhoeddir y Datganiad o Flaenoriaethau ac Amcanion Strategol o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mewn perthynas â swyddogaethau perthnasol Ofwat sy'n ymwneud â Chymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl.

iv. Dylai Ofwat ystyried sut i alluogi neu annog cwmnïau i gyfrannu at gyflawni polisi a strategaethau Llywodraeth Cymru. Dylai Ofwat nodi'n glir sut y mae unrhyw un o'i benderfyniadau mawr yn gyson ag amcanion a blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, er enghraifft, wrth osod y fethodoleg ar gyfer adolygu prisiau, cyflwyno cynigion am newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio megis newidiadau i amodau penodi ymgymerwyr, neu gyhoeddi penderfyniadau.

v. Dylai Ofwat ystyried a yw ei fframwaith rheoleiddio yn glir ac yn gydlynol ar y cyfan ac mewn cyd-destun penodol i Gymru. Dylai Ofwat roi sylw i ddymunoldeb fframwaith rheoleiddio sy'n syml, effeithiol ac effeithlon. Dylai Ofwat geisio cynnal fframwaith rheoleiddio sy'n dryloyw ac yn caniatáu i gwmnïau, buddsoddwyr a chwsmeriaid i gynllunio ar gyfer y tymor hir, gan annog gwelliannau o ran effeithlonrwydd.

vi. Rydym yn disgwyl i Ofwat gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru sy'n crynhoi'r camau a gymerwyd a'r ystyriaeth a roddwyd i gyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau fel y'u nodir yn y ddogfen hon.

**3. Blaenoriaethau ar gyfer rheoleiddio'r sector dŵr yn economaidd yng Nghymru**

- <u>Fforddiadwyedd</u>: Rydym yn disgwyl i Ofwat ystyried pa mor fforddiadwy yw cynllun ei fframwaith rheoleiddio ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Dylai Ofwat gymell cwmnïau i chwilio am wella effeithlonrwydd yn barhaus gyda'r nod o ddarparu mwy am lai er mwyn cael gwell gwerth am arian o wasanaethau dŵr a charthffosiaeth, gan roi sylw i gydnerthedd a gwasanaeth yn y tymor hir. Rydym yn disgwyl y bydd tariffau cymdeithasol ar gael i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu, gan adlewyrchu safbwyntiau'r cwsmeriaid yn gyffredinol. Yn ogystal â hynny, rydym yn disgwyl i Ofwat gefnogi ymdrechion priodol gan gwmnïau i ymateb i'r her o reoli dyled cwsmeriaid a lleihau'r dyledion a ddilëir er mwyn lliniaru effaith dyledion drwg ar filiau cwsmeriaid eraill.
- <u>Arloesedd:</u> Dylai Ofwat annog cwmnïau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau i'r cwsmeriaid a'r amgylchedd yn fwy effeithlon, yn seiliedig ar dystiolaeth a gwaith ymchwil cadarn. Enghraifft o hyn fyddai datblygu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystem, a'r rheini'n seiliedig ar dystiolaeth economaidd a gwyddonol gref ac wedi ystyried yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. Dylai Ofwat annog y defnydd o ddulliau gweithredu ar gyfer y dalgylch, sy'n cydnabod y gwerth o gael partneriaethau ehangach a chysylltiad perchnogion tir, ffermwyr a rhanddeiliaid eraill wrth gyflawni gwelliannau.
- <u>Y tymor hir:</u> Rydym yn disgwyl i Ofwat roi ystyriaeth i'r cydbwysedd priodol rhwng fforddiadwyedd yn y tymor byr a'r angen i ddiogelu'r fforddiadwyedd, y cydnerthedd a'r perfformiad yn y tymor hir. Dylai'r fframwaith rheoleiddio geisio sicrhau nad yw cwmnïau yn gohirio buddsoddi priodol yn y tymor byr ac felly'n amharu ar fuddiannau cwsmeriaid yn y dyfodol. Dylid monitro'r asedau a'u cadw'n briodol er mwyn sicrhau bod y costau a ysgwyddir gan bobl sy'n talu'r biliau yn y dyfodol yn effeithlon. Rydym yn disgwyl i gwmnïau gael fframweithiau

cynllunio hirdymor ar gyfer dŵr a dŵr gwastraff. Dylai Ofwat annog a chymell cynllunio hirdymor gan gwmnïau er mwyn diogelu rhag heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a ddisgwylir yn y dyfodol, gan fanteisio ar arloesi technolegol ar yr un pryd. Mae'n rhaid i Ofwat weithio gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i reoleiddio cwmnïau, i'w hannog a'u cymell i gynnal safonau uchel presennol ansawdd dŵr yfed y cyhoedd ar gyfer y tymor hir. Dylai hyn gynnwys derbynioldeb gan y cwsmeriaid, yn ogystal â buddioldeb.

- Marchnadoedd a chystadleuaeth: Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rhan y gall marchnadoedd ei chwarae weithiau i godi safonau perfformiad ac ysgogi effeithlonrwydd. Fodd bynnag, dylai Ofwat sicrhau bod ei ddull rheoleiddio yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru o ran cystadleuaeth manwerthu a chystadleuaeth ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi. Dylai dull rheoleiddio marchnadoedd Ofwat geisio sicrhau bod tegwch rhwng y rhai sy'n newydd i'r farchnad a'r ymgymerwyr sydd eisoes yno. At hynny, ni ddylai Ofwat geisio cyflwyno cystadleuaeth pan fyddai gweithgarwch newydd-ddyfodiaid yn gostwng atebolrwydd yr ymgymerwyr ar y cyfan o ran cyflawni gwasanaethau rhagorol i'r cwsmeriaid a'r amgylchedd a bygwth uniondeb ac effeithlonrwydd y broses o reoli'r systemau rhwydwaith yn ei chyfanrwydd. Ni ddylai Ofwat symud tuag at godi prisiau gwahanol ar ddefnyddwyr yn seiliedig ar y gost o ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i'w lleoliad daearyddol.

- Cydnerthedd: Mae gan Ofwat ran allweddol i'w chwarae wrth gyflawni sector dŵr cydnerth. Dylai'r dull a'r fframwaith rheoleiddio sydd gan Ofwat annog, galluogi a chymell cydnerthedd o ran heriau yn y tymor byr ac yn yr hirdymor. Cyfrifoldeb y cwmnïau yw sicrhau bod yr asedau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn ddigon cydnerth i wrthsefyll peryglon naturiol a phroblemau eraill y gellir eu rhagweld yn rhesymol, a bod eu gwasanaethau yn ddigon cydnerth i wrthsefyll diffygion yn yr asedau a bygythiadau eraill, gan gynnwys ymosodiadau seiber. Dylai Ofwat annog a chymell cwmnïau i gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a ddaw wrth gyflawni eu swyddogaethau. Drwy wneud hyn, dylai Ofwat ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

- Canolbwyntio'n gryf ar y cwsmeriaid: Rydym yn disgwyl i Ofwat gymell cwmnïau i ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid yn effeithiol a chyflawni'r hyn y mae'r cwsmeriaid ei eisiau, o gofio y gall fod blaenoriaethau gwahanol gan gwsmeriaid gwahanol, gan gynnwys cwsmeriaid sy'n agored i niwed. Dylai cwmnïau ddangos bod eu cynlluniau busnes yn dderbyniol ac yn fforddiadwy, gan roi sylw i'w cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol. Dylai Ofwat hefyd annog cwmnïau i gyfathrebu'n effeithiol â'u cwsmeriaid a chynyddu ymrwymiad y cwsmeriaid pan all ymddygiad y cwsmeriaid helpu i leihau problemau gweithredu a gwella effeithlonrwydd.

- Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen dull mwy integredig o reoli ein hadnoddau naturiol, gan gynnwys drwy ddulliau dalgylch cyfan. Dylai Ofwat annog a chymell defnydd cynaliadwy o

adnoddau dŵr, gan gynnwys annog cwmnïau i leihau gollyngiadau a defnydd pan fo hynny'n gost -effeithiol. Dylai Ofwat annog a chymell cwmnïau i reoli dŵr gwastraff a dŵr wyneb mewn modd integredig a chynaliadwy. Dylid cymell cwmnïau i ddod o hyd i ddatrysiadau sy'n cyflawni buddion ehangach i'r gymdeithas ac i'r amgylchedd, pan fo tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau hynny.